

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Enw'r gwasanaeth: Ward St Caradog,
Ysbyty Llwynhelyg

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 16 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o ward St Caradog, Ysbyty Llwynhelyg fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Lleolir yr ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Uned asesu aciwt i oedolion yw ward St Caradog a agorwyd ym mis Mehefin 2003.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ar 12 Awst 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- yr archwiliadau / asesiadau risg amgylcheddol mwyaf diweddar a oedd yn cynnwys archwiliad o bwyntiau clymu, asesiad risg trais ac ymddygiad ymosodol ac archwiliad o ddiogelwch tân
- adolygiad misol yn seiliedig ar ddigwyddiadau ar gyfer y 3 mis diwethaf
- adolygiad misol o'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol a chadw pobl ar wahân ar gyfer y 3 mis diwethaf.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod nifer y gwelyau ar y ward wedi lleihau o 15 i 10 ers dechrau'r pandemig er mwyn creu Man Diogel Amgen (APoS) i'r heddlu ei ddefnyddio gyda phobl a gedwir o dan Adran 136¹, neu'r rhai sy'n cytuno i gael asesiad o'u gwirfodd. Roedd hefyd wedi bod yn fodd i greu ardal parth coch er mwyn darparu gofal i'r cleifion hynny a oedd wedi dal COVID-19, neu yr amheuwyd eu bod wedi'i ddal. Dywedwyd wrthym mai dim ond un claf oedd wedi dal COVID-19 yn yr uned drwy gydol y pandemig, a oedd yn galonogol.

Cyfyngwyd ar ymweliadau yn ystod pandemig COVID-19, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag, pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio, trefnwyd ymweliadau lle cadwyd pellter cymdeithasol. Dywedodd rheolwr y ward wrthym hefyd fod llechi wedi bod ar gael er mwyn galluogi'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod ymweliadau gan anifeiliaid anwes therapi wedi cael eu gohirio yn ystod y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, am fod y cyfyngiadau wedi cael eu llacio, mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ailgyflwyno'n llawn bellach. Hefyd, cawsom wybod y gallai'r cleifion ddefnyddio penset realiti rhithwir drwy fenter Cymunedau Digidol

¹ Mae adran 136 (a136) yn rhan o'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae a136 yn golygu bod gan yr heddlu y pŵer i fynd ag unigolyn i fan diogel neu gadw unigolyn mewn man diogel. Ni ellir ei defnyddio i fynd ag unigolion o'u cartrefi, na chartref rhywun arall. Fel rheol fe'i defnyddir mewn mannau cyhoeddus, megis stryd neu barc.

Cymru². Nodwyd bod y penset wedi cael ei ddefnyddio drwy gydol y pandemig er mwyn galluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon a therapiwtig pan na allent adael y ward. Dywedwyd wrthym fod y penset realiti rhithwir wedi bod yn amhrisiadwy i'r cleifion o ran eu hiechyd a'u llesiant ar adeg heriol iawn.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y cleifion a'r staff wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 yn rheolaidd, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb yn cael y cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod yr holl daflenni ac arwyddion ar y ward yn ddwyieithog. Cawsom wybod bod digon o staff, gan gynnwys rheolwr y ward a seiciatrydd ymgynghorol, sy'n siarad Cymraeg yn rhugl sy'n helpu i ddiwallu anghenion y cleifion hynny sy'n siarad Cymraeg ac sydd am gyfathrebu yn eu dewis iaith. Nodwyd bod y staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo iwniffform sydd â logo iaith Gwaith arno i ddangos hynny. Mae brand iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg. At hynny, nodwyd bod eiriolwr sy'n siarad Cymraeg hefyd ar gael i'r cleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom fod archwiliadau asesu risg blynyddol wedi cael eu cynnal i fonitro ac asesu cyflwr y ward a'r gwaith o'i chynnal a'i chadw. Roedd archwiliad o bwyntiau clymu ac asesiad risg trais ac ymddygiad ymosodol wedi cael eu cynnal ym mis Ebrill 2021. Hefyd cawsom gopi o'r adroddiad ar ddiogelwch tân dyddiedig mis Medi 2020. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod trefniadau wedi cael eu gwneud i gynnal archwiliad arall o ddiogelwch tân ar yr un diwrnod â'r gwiriad ansawdd. Mae copi o'r adroddiad diweddaraf ar ddiogelwch tân a'r cynllun gweithredu cysylltiedig dyddiedig 12 Awst 2021 wedi cael eu hanfon i AGIC bellach.

Tynnodd yr archwiliadau / asesiadau risg sylw at rai gwelliannau roedd angen eu gwneud ar y ward a chawsom gynllun gweithredu ar gyfer yr adroddiad ar ddiogelwch tân a'r archwiliad o bwyntiau clymu. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau gweithredu yn cynnwys amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith. Cawsom sicrwydd gan reolwr y ward ei fod mewn cysylltiad ag Adran Ystadau'r Bwrdd lechyd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud.

Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob mater a nodwyd yn yr adroddiad ar ddiogelwch tân a'r asesiad risg ar gyfer pwyntiau clymu yn cael ei ddatrys yn brydlon. Rhaid i'r Bwrdd lechyd gyflwyno cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau / adroddiad ar gynnydd i AGIC, o fewn tri mis i ddyddiad y gwiriad ansawdd, fel ein bod yn gallu asesu'r cynnydd a wnaed i wella a chefnogi diogelwch y cleifion.

Atal a rheoli heintiau

² Rhaglen wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru yw Cymunedau Digidol Cymru a ddarperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru mewn partneriaeth â'r Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe. Dechreuodd y rhaglen yn 2019 a bydd yn para tair blynedd.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- polisi rheoli heintiau cyffredinol a pholisi rheoli heintiau yn benodol ar gyfer COVID-19
- yr archwiliadau / asesiadau risg rheoli heintiau diweddaraf.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd rheolwr y ward yr addasiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn helpu i leihau trosglwyddiad COVID-19. Caiff posteri eu harddangos ar y waliau i atgoffa'r cleifion o'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Hefyd caiff y staff iwnifform i'w wisgo, a chawsom wybod bod y staff, lle y bo'n briodol, yn gorfod gwisgo masgiau bob amser a bod hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r ward.

Cawsom wybod am y systemau sydd ar waith i nodi'n brydlon unrhyw gleifion a all fod â symptomau COVID-19. Dim ond os yw'r cleifion wedi cael canlyniad prawf negatif ar gyfer COVID-19 y maent yn cael eu derbyn i'r ward.

Rhoddwyd data i ni ar gyfraddau heintio ar gyfer y tri mis diwethaf sy'n dangos na fu unrhyw achosion a gadarnhawyd o COVID-19, nac unrhyw glefydau heintus eraill, ymhlith y staff na'r cleifion.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith ar y ward er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal. Mae rhestrau gwirio dyddiol yn cael eu cwblhau i fonitro glendid cyffredinol y ward, a gwelsom fod archwiliadau atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo wythnosol yn cael eu cwblhau. Hefyd cawsom ganlyniadau'r archwiliad mwyaf diweddar a gwblhawyd gan ddefnyddio adnodd archwilio safonedig 'Credits for Cleaning', ac roedd sgoriau'r ward yn uchel. Roedd rheolwr y ward o'r farn bod y nyrs gyswllt a'r tîm atal a rheoli heintiau wedi bod yn gefnogol iawn drwy gydol y pandemig wrth adolygu a chynnal trefniadau atal a rheoli heintiau lleol. Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau yn uchel iawn.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gael i'r staff, megis:

- canllawiau COVID-19 ar gyfer adfer gwasanaethau o fewn lleoliadau gofal iechyd
- canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol
- cynllun COVID-19 y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu
- canllawiau COVID-19 ar gynnal gwasanaethau
- canllawiau gweithdrefnol COVID-19 ar ofal ar ôl marwolaeth

-
- rheoli symptomau COVID-19
 - llwybr cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu COVID-19
 - canllawiau microbioleg a rheoli heintiau ar gyfer profion
 - gweithdrefn safonol sgrinio derbyniadau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau ar 3 Awst 2021 ac, yn gyffredinol, sgoriodd y ward yn uchel. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud rhai gwelliannau, ond nid oedd cynllun gweithredu manwl ag amserlenni clir. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud eisoes, megis cyflwyno cadeiriau plastig hawdd eu glanhau yn lle'r cadeiriau ffabrig.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr archwiliad atal a rheoli heintiau sydd ag amserlenni clir ac, o fewn tri mis i ddyddiad y gwiriad ansawdd, roi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau i AGIC, fel y gallwn asesu'r cynnydd a wnaed ymhellach.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Ystyriwyd a yw'r trefniadau rheoli yn cefnogi'r staff i gyflawni eu rolau ac a yw'r staff yn cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Hefyd, holwyd y gwasanaeth am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a diwygiadau dilynol) ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- polisi uwchgyfeirio
- polisi/proses gorfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod anghenion y cleifion wedi cael eu monitro yn ystod y pandemig drwy asesiadau rheolaidd a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol, a gynhaliwyd o bell.

Cawsom wybodaeth staffio yn dangos bod nifer o swyddi gwag (ar hyn o bryd pum nyrs iechyd meddwl gofrestredig a thri gweithiwr cymorth gofal iechyd). Fodd bynnag, cadarnhaodd

rheolwr y ward fod pedair nyrs gofrestredig wedi cael eu penodi a bod disgwyl iddynt ddechrau ym mis Medi 2021. Parheir i recriwtio ar gyfer y swyddi gwag sy'n weddill. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu recriwtio gweithwyr cymorth gofal iechyd o blith staff banc y Bwrdd Iechyd. Byddai AGIC yn disgwyl gweld gwelliant parhaus o ran recriwtio ar adeg ein harolygiad nesaf o'r ward.

Gan fod gan y gwasanaeth nifer o swyddi gwag, gwelsom ei fod yn dibynnu ar staff asiantaeth a staff banc. Er mwyn darparu parhad gofal i'w gleifion a'i staff, mae rheolwr y ward yn ceisio sicrhau bod yr un staff banc yn gweithio sifftiau.

Gwnaethom siarad am y gefnogaeth a roddir i'r staff ar y ward. Mae'r holl staff newydd yn cael cyfnod sefydlu er mwyn iddynt ymgyswrtio â'r ward. Yn ogystal â chael cefnogaeth rheolwr y ward, gall y staff hefyd weld seicolegydd os bydd angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol arnynt o ran materion llesiant.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant gorfodol a nodwyd bod y gyfradd gydymffurfio ym mhob maes yn uchel iawn.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ward St Caradog, Ysbyty Llwynhelyg

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob mater a nodwyd yn yr adroddiad ar ddiogelwch tân a'r asesiad risg ar gyfer pwyntiau clymu yn cael ei ddatrys yn brydlon. Rhaid i'r Bwrdd lechyd gyflwyno cynllun gweithredu wedi'i ddiweddararu / adroddiad ar gynnydd i AGIC, o fewn tri mis i ddyddiad y gwiriad ansawdd, fel ein bod yn gallu asesu'r cynnydd a wnaed i wella a chefnogi diogelwch y cleifion.	Safon 2.1 Rheoli Risd a Hybu lechyd a Diogelwch	1 - Cwblhau gwaith Diogelwch Tân lefel uwch - Ceisio Cyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn datrys yr holl faterion o ran Diogelwch Tân a nodwyd yn yr adroddiad. 2 - Pwyntiau Clymu, cwblhau gwaith pwysig. Mae'r cynlluniau yn destun tendr ar hyn o bryd.	Jason Wood - Rheolwr Datblygu Cyfalaf Mawr Karen Roberts Dirprwy Reolwr Cymorth y Gyfarwyddiaeth Phillip Astles - Rheolwr Prosiect Ystadau	1 - Gwaith cynnar i ddechrau ym mis Hydref/Tachwedd 2021 - dyddiad cwblhau disgwyledig Mehefin 2022. 2 - Cam Adeiladu 1 ar y trywydd iawn i ddechrau 15/11/21. Camau 2 a 3 i ddechrau 03/01/22, gan ddod i ben ym mis Ebrill 2022 yn ôl y

					disgwyl.
2	Rhaid i'r Bwrdd lechyd lunio cynllun gweithredu sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr archwiliad atal a rheoli heintiau sydd ag amserlenni clir ac, o fewn tri mis i ddyddiad y gwiriad ansawdd, roi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau i AGIC, fel y gallwn asesu'r cynnydd a wnaed ymhellach.	Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	1- Cydymffurfio ym maes atal a rheoli heintiau a diogelwch tân, newid yr holl ddodrefn ar y ward, gan gynnwys biniau gwastraff a matresi'r cleifion. 2- Ailbaentio'r waliau mewnol lle y bo angen er mwyn cydymffurfio ym maes atal a rheoli heintiau.	Rhodri Harries Rheolwr y Ward a Jo Featherstone Rheolwr Busnes Duncan Evans Rheolwr Gweithrediadau Ystad	1- Mae'r broses gaffael wedi dechrau - amserlen realistig 3 mis, Tachwedd 2021. 2- Amserlen 3 mis, Tachwedd 2021.

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Rhodri Harries

Dyddiad: 26/08/21